

# Chwaraeon RhCT

## Osian, Olivia, Iyla, Aliyah, Joseph, Gabriel, a Tomos

### Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru

Cafodd Osian, Olivia, Iyla, Aliyah, Joseph, Gabriel, a Tomos o Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru eu dewis ar gyfer eu rolau ar ôl iddyn nhw wneud cais llwyddianus ac arddangos eu bod nhw'n cwrdd â'r meini prawf. Maen nhw wedi dangos eu bod nhw'n berffaith ar gyfer y rôl, gan hefyd dangos eu bod nhw'n fodelau rôl arbennig i'w cyfoedion.

Mae'r disgyblion wedi bod wrthi'n hyrwyddo'r sesiynau ar-lein yn ogystal â chymryd rhan yn y sesiynau. Maen nhw wedi creu diwylliant cadarnhaol sy'n annog cymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd. Trwy gydol y flwyddyn, maen nhw wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd er mwyn adolygu cynnydd y cynllun a nodi dulliau newydd o ran datblygu chwaraeon yn yr ysgol. Mae eu presenoldeb nhw wedi cael effaith fawr ar ddisgyblion eraill yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Mae'r disgyblion yn cefnogi'u cyfoedion wrth iddyn nhw ymarfer eu techneg saethu pêl-droed a phêl-fasged, gan hefyd annog disgyblion eraill i fanteisio ar gemau rhyngweithiol a heriau sydd wedi'u gosod ar iard yr ysgol. Rhyngddyn nhw, maen nhw wedi cwblhau dros 300 o oriau eleni.

"Mae gen i fwy o hyder yn fy hunain nawr fy mod i'n Llysgennad Ifainc. Rydyn ni wedi helpu gyda llawer o wahanol gampau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys sefydlu cynghrair bêl-rwyd, gosod gemau yn ystod amser cinio, sesiynau athletau ar ôl ysgol. Fy hoff beth oedd ein mabolgampau!".

"Rydw i wir wedi mwynhau bod yn Llysgennad Ifainc, mae'r rôl wedi datblygu fy hyder. Rydw i wedi mwynhau helpu plant eraill i ymarfer eu sgiliau fel bod modd iddyn nhw wneud y swydd maen nhw'n dymuno ei gwneud pan fyddan nhw hŷn, fel bod yn chwaraewr pêl-droed."

## LLYSGENNAD IFANC Y MIS - AWST 2025

Chwaraeon RhCT Sport RCT

sportwales chwaraeoncymru

YOUTH SPORT TRUST

RHONDDA CYNON TAF